

**Cyfeirnod:** IR795

**Dyddiad:** 05 Tachwedd 2021

## Ystadegau Cyflenwyr

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 12 Hydref 2021 lle gwnaethoch ofyn am wybodaeth ynghylch caledwedd a gwasanaethau argraffwyr.

Er eglurder, mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ystod eang o archwilio a swyddogaethau cysylltiedig sy'n cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli a gwario arian cyhoeddus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y Senedd a'r Llywodraeth. Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan bob un ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhyrchu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol: Nodwch fod y wybodaeth yn ein hymatebion yn dod o'r flwyddyn ariannol 2020-21.

**1. Pwy yw'ch hoff gyflenwr ar gyfer MFD/Printer Hardware? (Nodwch mewn cyflenwyr lluosog)**

*Y cyflenwr presennol yw Canda Copying Ltd.*

**2 Nodwch nifer yr argraffwyr sydd yn y sefydliad ar hyn o bryd, i gynnwys dadansoddiad o MFDs (dyfeisiau aml-weithredol), dyfeisiau Ystafell Argraffu ac argraffwyr bwrdd gwaith.**

*32 MFDs.*

**3. Beth yw eich cyfrolau tudalen flynyddol presennol (wedi'u rhannu gan Lliw a Mono)**

*Du a Gwyn = 203,000.*

*Lliw = 420,000.*

**4. Beth yw'r gwariant blynyddol bras ar gyfer caledwedd a gwasanaethau?**

*£37,000*

**5. Pa ddyddiad mae eich contract yn ddyledus i'w adnewyddu?**

*31/10/2021*

**6. Pa lwybr neu fframwaith caffael a ddefnyddiwyd i gaffael y gwasanaeth hwn?**

Fframwaith NPS.

**7. Pa berson/rôl sy'n gyfrifol am gaffael eich contractau argraffwyr?**

Pennaeth Gwasanaethau Busnes

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth